**Cofnodion Bwrdd TfW Rail Ltd**

**18/07/2025**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudry, Julian Edwards

**Hefyd yn bresennol**
Sam Hadley, Stephen Morgan

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Swyddogol Sensitif (Busnes)

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Peter Strachan

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda.

**2. Sylw i ddiogelwch**.
Trafododd y Bwrdd y tueddiadau o ran damweiniau cwsmeriaid a'r angen am fwy o atebolrwydd a gweithredu ar sail data. Er bod gwelliannau wedi'u nodi, mae anghysondebau'n dal i fodoli, gan ysgogi adolygiad blaenoriaeth o'r newydd yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Gweithredol Diogelwch. Tynnodd y trafodaethau sylw at bwysigrwydd defnyddio data wedi'i normaleiddio i ddeall cyd-destun y digwyddiadau, yn enwedig mewn gorsafoedd risg uchel fel Caerdydd Canolog, lle mae hygyrchedd a newidiadau i blatfformau ar fyr rybudd yn peri heriau. [redacted], gan wella'r cyfathrebu rhwng signalwyr a staff platfform, a mynd i'r afael â chyfyngiadau adnoddau TG. Anogwyd yr arweinyddiaeth i rymuso timau a blaenoriaethu cynlluniau diogelwch, gan newid o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth oddefol i newid ymddygiad gweithredol ac ymgysylltu â chwsmeriaid.

### 3. Sylw i Gwsmeriaid

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Cymorth i Deithwyr dros y 18 mis diwethaf, gyda data'n cadarnhau gwelliannau a defnydd dyddiol o'r dangosfwrdd newydd. Mae treial i gasglu adborth ar godau QR yn mynd rhagddo yng ngorsaf Caerdydd Canolog, sy'n nodi tueddiadau cadarnhaol gan awgrymu bod teithwyr anabl yn teithio mwy. Trafododd y Bwrdd [redacted] diogelu refeniw. Trafodwyd hygyrchedd, gan gynnwys mynediad gwastad i drenau a mesur lled ar y platfform.

### 4. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion 20/06/2025, yn amodol ar y gwelliannau.

### 5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau

Cafodd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau a thrafodwyd y canlynol:

- Mae Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd bellach wedi bod ar agor ers blwyddyn. Nodwyd yr adborth cadarnhaol, yn enwedig o safbwynt cymorth i deithwyr. [redacted]
- Cynhaliwyd cyfarfodydd Lefel Un gydag Amey, gan nodi'r llinellau atebolrwydd clir a sefydlwyd a'r dangosfwrdd ar y cyd i fonitro perfformiad.
- Perfformiad yn gadarnhaol ar draws yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol, gan nodi bod cerdyn sgorio cytbwys bellach yn canolbwyntio ar linell y llwybr.
- Tarfwyd ar wasanaethau yn sgil digwyddiad â choeden yng Nghyffordd y Mynydd Bychan ac achos o ddwyn ceblau yn Shotton. Roedd hyn wedi effeithio ar y perfformiad. Dywedwyd wrth y Bwrdd bod adolygiadau'n cael eu cynnal ar unwaith i ddeall y problemau ac mae'r tîm yn mynd ar drywydd pob munud o oedi.
- Mae Mark IV yn ailymuno â'r gwasanaeth. Nodwyd mai 31 Awst yw'r dyddiad disgwyliedig ond maent yn hyderus y bydd yn digwydd cyn hynny. Cafodd y Bwrdd wybod bod cynllun gwydnwch yn cael ei ddatblygu fesul fflyd i ganfod cynlluniau wrth gefn pan fydd tarfu.
- [redacted]
- Bydd PAYG yn cael ei godi fel eitem Sylw i Gwsmeriaid yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Rheilffyrdd TrC i fynd i'r afael â'r prif broblemau i gwsmeriaid, [redacted]

Swyddogol Se[redacted]usnes)

[redacted]

- [redacted]
- [redacted]
- Mae'r unedau Class 756 yn gorboethi yn y cywasgwyr ar dymheredd o 50ºC oherwydd nad yw’r ffaniau oeri’n gweithio’n effeithiol, ac ni ellir gweld yn llwyr y ffan sydd o bosib wedi'i ddifrodi, gan nodi ei bod yn cymryd chwe awr i'w dynnu'n gyfangwbl. Ar ben hynny, mae namau OLE yn effeithio ar berfformiad pantograff ac mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.
- Codwyd pryderon am oes bywyd olwynion Class 158, [redacted]
- Mae’r amserlen yn llithro gyda chynllun teithio llesol Rheilffordd Calon Cymru, gyda dim ond pedair o chwe uned mewn gwasanaeth gan fod un uned yn cael ei hatgyweirio ac oherwydd problemau dosbarthu’r fflyd. Dywedodd MD fod angen uned Class 153 ychwanegol i fodloni disgwyliadau'r gwasanaeth. Bydd diweddariad ar hyn yn adroddiad nesaf y Bwrdd.

Swyddogol Sensitif

**5.1 Adroddiad Strategol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (gan gynnwys gwydnwch seilwaith)**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad strategol ar ddangosyddion perfformiad allweddol

**6. Egwyl**

**7. Adroddiad Iechyd a Diogelwch Strategol**

Cyflwynwyd adolygiad diogelwch a risg Ch1 i’r Bwrdd. Nodwyd gwelliannau yn y proffil risg trychinebus, yn enwedig o ran SPADs (Pasio Signalau Stop), gyda gwaith parhaus i ddatblygu dadansoddiad mwy soffistigedig ac alinio camau gweithredu i adnabod risgiau. Gwelwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau TPWS yn Ch1, gan ysgogi ymchwiliad pellach i’r achosion sylfaenol ac adolygiad o bolisïau signalau a gyrru. Mae’r ymgysylltiad â chydweithwyr wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, wedi'u hategu gan adolygiadau parhaus o'r cynllun gwaith. Mae dadansoddiad o ddigwyddiadau SPAD a TPWS fesul diwrnod o'r wythnos yn cael ei ymgorffori

mewn cyflwyniad risg cyfannol, gyda chamau gweithredu'n cael eu mapio i bob ardal. [redacted]

**8. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Hysbyswyd y Bwrdd bod yr Uwch Dîm Arwain Rheilffyrdd wedi dod ynghyd i gysoni risgiau strategol â risgiau Haen 1 (T1) a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Bwrdd TrC a'r Tîm Arwain Gweithredol. Trafododd y Bwrdd y ddiffyg cysylltiad rhwng y risgiau a drafodwyd a'r rhai a adroddwyd yn ffurfiol, gan nodi bod angen adolygiad o ddulliau adrodd. Trafododd y Bwrdd y gwaith o gyflwyno trenau Class 197e a Class 398, y defnydd o drenau Class 153 ac archebu cerbydau newydd. Trafododd y Bwrdd y prosesau uwchgyfeirio, gan nodi y dylai'r holl risgiau T1 fod yn weladwy ar y gorwel. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen am ymwybyddiaeth ar draws y tîm o'r gofrestr risg.

(Busnes)

9. **Diweddariad Masnachol**

*Ymunodd Chris Williams â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd drosolwg o berfformiad cyfnod 3, [redacted]. [redacted]

**10. Y Newyddion Diweddaraf am Gyllid**

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid [redacted]

[redacted]

**12. Papurau i'w Nodi**

Nododd y Bwrdd y Diweddariad Marchnata

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**

Swyddogol Sensitif (Busnes)